

PWYLLGOR CABINET PARC COFFA YNYSANGHARAD

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Cabinet Parc Coffa Ynysangharad a gafodd ei gynnal brynhawn Mawrth, 21 Tachwedd 2017 am 12.30pm ym Mhencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

R. Bevan (Cadeirydd)

M. Webber A. Crimmings

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Ms J. Cook – Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio

Mr C.Hanagan - Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau

Cyhoeddus

Mr D Powell – Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Dylunio Corfforaethol a Chynnal a

Chadw

A Wilkins - Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol

Ms A Virgo – Arweinydd Carfan Prosiect - Cyllid a Gweithredu

5. DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

6. COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Cabinet Parc Coffa Ynysangharad a gafodd ei gynnal ar 1 Awst 2017, yn rhai cywir.

7. GWAITH AILDDATBLYGU DYFFRYN TAF - PONT DROED PARC COFFA YNYSANGHARAD ARFAETHEDIG

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio yr Aelodau at yr adroddiad a roddodd ddiweddariad ynglŷn â gwaith datblygu Dyffryn Taf, a oedd yn cynnwys cynnig i adeiladu pont droed dros yr Afon Taf o safle Dyffryn Taf i Barc Coffa Ynysangharad.

Rhodddwyd gwybod i Aelodau am y cysylltedd gwell rhwng canol y dref a'r parc trwy adeiladu pont droed, gan wneud yn fawr o'r nifer uwch o bobl

sy'n mynd i'r parc. Ychwanegwyd y byddai'r bont nodedig yn cynrychioli hyder yn rôl Pontypridd yn yr economi rhanbarthol yn y dyfodol.

Cynghorwyd Aelodau bod y garfan dylunio amlddisgyblaeth wedi cael ei chomisiynu i archwilio opsiynau ymhellach o ran y bont droed. Mae'r garfan wedi dylunio cysylltiad newydd a chyffrous o ganol y dref i'r parc, gan sicrhau nad oes effaith negyddol ar faes parcio Gas Road cyfagos.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr fod astudiaeth dylunio sydd â 2 gysyniad wedi cael ei chynhyrchu. Mae cyfres o arolygon a gwaith ymchwilio wedi cael eu cyflawni gan gynnwys gwaith ecolegol, risg llifogydd, gwasanaethau a gwasanaethau dan ddaear a threfnu arolwg coed. Yn dilyn dadansoddiad manwl, roedd y ddau opsiwn wedi cael eu datblygu a derbyniodd Aelodau fanylion yr opsiynau ar ffurf cyflwyniad PowerPoint er mwyn iddyn nhw eu trafod. Dyna'r ddau opsiwn:

- Opsiw 1 – Pont tŵr â cheblau cynnal gyda mast canolog; ac
- Opsiw 2 – Pont ddirdro â thrawstiau bocs.

Ar ôl trafodaeth fanwl cytunodd yr Aelodau y dylai opsiwn 1 gael ei ddwyn ymlaen fel y dyluniad dewisol.

Trafododd Aelodau y cais cynllunio angenrheidiol ac awgrymwyd cyflwyno adroddiad arall i'r Pwyllgor yn dilyn y cais yn 2018.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dylunio Corfforaethol a Chynnal a Chadw gysur i Aelodau na fydd gwaith yn cael ei wneud yn y Parc heb ganiatâd ymddiriedolwyr er y bydd raid cyflawni gwaith ymchwilio'r safle, a chytunodd yr Aelodau ar hyn.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD:**

- a) Yn dilyn ystyried yr opsiynau dylunio ar gyfer y bont droed newydd, bydd opsiwn 1 yn cael ei ddwyn ymlaen fel y dyluniad dewisol.
- b) Cadarnhau cam nesaf o'r gwaith datblygu manwl, gan gynnwys gwaith ymchwilio'r safle pellach, yn rhan o'r cynllun datblygu.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm

Cynghorydd R Bevan

Cadeirydd